

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn pwysleisio ymgysylltu beirniadol â chyfreithiau mewn cyd-destun. Caiff ecwiti, ymddiriedolaethau a thir eu harchwilio fel cyfreithiau unigol, yn ogystal â thrwy ryngweithio â chyd-destunau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd heddiw, a rhai posibl y dyfodol. Anogir y myfyrwyr drwy gydol y modiwl i gydnabod ac archwilio'r cyd-destunau a'r rhyngweithiadau hyn, yn ogystal â'r angen i'w cwestiynu a'u herio'n fanylach gan ddefnyddio sgiliau rhesymu a chwilfrydedd. Mae'r modiwl hwn yn hyrwyddo ymchwil unigol ond, yn bwysicach, mae hefyd yn hyrwyddo cydweithio a sgwrsio â chymunedau o fyfyrwyr ac academyddion er mwyn helpu i feithrin hyder, gwybodaeth a sgiliau

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gwybodaeth am addysgu, arfer neu ymchwilio i Gyfraith Eiddo, neu brofiad diweddar ohonynt, yn enwedig ym maes Cyfraith Ecwiti, Ymddiriedolaethau a Thir.
- Y gallu i drosglwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol i fyfyrwyr drwy arfer addysgu effeithiol
- Y gallu i hwyluso a datblygu dysgu'r myfyrwyr drwy eu hymchwil annibynnol eu hunain
- Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau diweddar yn un neu fwy o themâu pwnc y modiwl.
- Y gallu i ddangos dealltwriaeth a gwybodaeth gyfredol ynghylch yr amgylchedd cyfreithiol sy'n newid a'r newidiadau ym maes addysgu'r gyfraith.
- Tystiolaeth o ddull systematig o addysgu sgiliau cyfreithiol academaidd sylfaenol a rhesymu cyfreithiol sy'n briodol i astudiaethau lefel 3.
- Dangos hanes o ddatblygiad personol ac arfer myfyriol ac ymrwymiad parhaus iddynt, ynghyd â'r gallu a'r parodrwydd i fentora/cefnogi myfyrwyr wrth Gynllunio Datblygiad Personol.
- Tystiolaeth o'r gallu i roi adborth ysgrifenedig priodol ac wedi'i deilwra ar aseiniadau ysgrifenedig ac aseiniadau llafar, gan gyfeirio at gynnwys a sgiliau er mwyn helpu myfyrwyr unigol i ddatblygu drwy eu rhaglen astudio yn unol â safonau cytunedig y Brifysgol.
- Y gallu i ddangos sgiliau rheoli llwyth gwaith effeithiol a chwblhau gwaith o fewn terfynau amser y brifysgol
- Y gallu i ddefnyddio technoleg ar-lein a thiwora myfyrwyr gan ddefnyddio cyfuniad o diwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein a fforymau.
- Y gallu i diwtora amrywiaeth eang o fyfyrwyr â galluoedd, dulliau dysgu, nodau astudio a phrofiadau amrywiol.
- Tystiolaeth o'r gallu i gydweithio â thiworiaid eraill er mwyn darparu hyfforddiant effeithiol ar draws nifer o grwpiau tiwtor, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein ac wyneb yn wyneb

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	10
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	8